

## Carol Pyrah



### Role

Ymddiriedolwr a Chadeirydd Pwyllgor Gogledd Lloegr

Mae Carol yn weithiwr treftadaeth proffesiynol profiadol sydd â chefnidir yn y sectorau elusennol a chyhoeddus.

Ers 2019, bu'n Gyfarwyddwr Gweithredol Ymddiriedolaeth Historic Coventry, sy'n dod o hyd i ffyrdd arloesol o gynnal lleoedd hanesyddol ac ysbrydoli, cynnwys a chysylltu pobl â hanes y ddinas. Carol yw Prif Weithredwr Urban Green Newcastle, elusen annibynnol sy'n gyfrifol am reoli a chynnal a chadw 33 o barciau a 61 o safleoedd rhandiroedd y ddinas.

Yn archeolegydd drwy hyfforddiant, ymunodd Carol ag Ymddiriedolaeth Historic Coventry ar ôl gyrfa uwch yn English Heritage a Historic England, lle bu'n Gyfarwyddwr Cynllunio Cynorthwyol ac yn aelod o'r tîm

Gweithredol. Mae ganddi hanes o brosiectau adfywio sy'n seiliedig ar leoedd ac mae'n angerddol am rôl lleoedd lleol i feithrin balchder dinesig a chydlyniant cymunedol.

Mae Carol wedi bod yn Gomisiynydd Comisiwn Ffabrig y Gadeirlan i Loegr ac yn Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Cadwraeth yr Eglwysi.

Mae hi wedi byw yn y Yorkshire Dales ers dros 25 mlynedd.